

ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD

CYFLWYNIAD

Gofynion Cyfreithiol, Strategaethau cenedlaethol a chanllawiau Llywodraeth Cymru

O dan adran 404 o **Ddeddf Addysg 1996**, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu **pob** ysgol a gynhelir:

(a) wneud, a diweddarau'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig ar wahân o'u polisi'n ymwneud â darparu addysg rhyw, a

(b) gwneud copïau o'r datganiad a fydd ar gael i'w harchwilio (ar unrhyw adeg resymol) gan rieni plant cofrestredig yn yr ysgol a darparu copi o'r datganiad am ddim i unrhyw riant sy'n gofyn am un.

Mae gan rieni yr hawl o dan adran **405 o Ddeddf Addysg 1996** i esgusodi eu plant o gael addysg rhyw.

O dan **adran 101(1)(c) o Ddeddf Addysg 2002**, mae'n ofynnol i bob ysgol uwchradd a gynhelir cynnwys addysg rhyw ar gyfer pob disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol fel rhan o 'gwricwlwm sylfaenol' yr ysgol. Pan ddarperir addysg rhyw, mae **adran 403 (1B) o Ddeddf Addysg 1996** (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i brifathrawon a chyrrff llywodraethu ystyried **canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.

Mae **adran 403 (1C)** yn ei gwneud yn ofynnol i ganllawiau'r Cynulliad 'gynnwys canllawiau ynghylch unrhyw ddeunyddiau y gallai un o gyrff y GIG eu cynhyrchu ar gyfer eu defnyddio mewn addysg rhyw mewn ysgolion.'

Mae **adran 403 o Ddeddf Addysg 1996** yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu a'r pennaeth: gymryd pa gamau bynnag sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau, lle bo addysg rhyw'n cael ei rhoi i unrhyw ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ei bod yn cael ei rhoi mewn ffordd sy'n annog y disgyblion hynny i dalu'r sylw dyledus i ystyriaethau moesol a gwerth bywyd teuluol.

Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol ar gyfer Cymru 2010-2015

Mae *Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol 2010–2015* yn adnewyddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i:

- wella iechyd a lles rhywiol y boblogaeth yng Nghymru
- cau'r bwlch anghydraddoldeb iechyd rhywiol
- datblygu cymdeithas sy'n cefnogi trafodaeth agored am berthnasoedd, rhyw a rhywioldeb.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer *dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*: gweler y polisi Ysgol

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 005/2008:

Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002;

Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004(2007);

Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru –

Strategaeth Genedlaethol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

Cysylltiadau â pholisïau eraill

Mae polisi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yr Ysgol yn gysylltiedig â'r polisïau canlynol:

Polisi ABaCh
Polisi Cyfrinachedd
Polisi Amddiffyn Plant
Polisi Gwrth-Fwlian
Polisi Cydraddoldeb
Polisi Crefydd a Moeseg

Cysylltiadau â phyncïau eraill

Cwricwlwm Gwyddoniaeth
Cwricwlwm Addysg Grefyddol

Gweledigaeth yr Ysgol

Defnyddir fframwaith ABaCh ar gyfer Dysgwyr 7-19 oed yng Nghymru Medi 2008 ar gyfer cynllunio cwricwlwm Addysg Rhyw Penweddig. Rydym am bwysleisio cydberthnasau personol sy'n rhai cyfrifol, priodol ac iach ar gyfer archwilio'r agweddau niferus sy'n perthyn i rywioldeb. Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd amgylchedd sefydlog, diogel a chariadus ar gyfer bywyd teuluol. Rydym yn dysgu am natur priodas a phwysigrwydd hynny ar gyfer bywyd teuluol ac wrth fagu plant. Dylai athrawon fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau, gan sicrhau na chaiff plant a phobl ifanc eu gwarthnodi oherwydd amgylchiadau eu cartref.

Nodau

Mae gan yr ysgol ran bwysig wrth effeithio'n gadarnhaol a parhaol ar iechyd a lles rhywiol plant a phobl ifanc.

Bydd y rhaglen yn:

- hyrwyddo eu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol.
- yn eu galluogi i fwynhau perthynas wedi ei seilio ar barch a chyfrifoldeb y naill at y llall.
- yn eu hannog i fynegi eu rhywioldeb mewn ffyrdd positif ac yn cyfrannu at eu gallu i adnabod a gwrthsefyll camdriniaeth.
- cynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â bod yn rhieni a rhai materion sensitif megis erthyliad.
- paratoi'r dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad yn eu cydberthnasau personol.
- rhoi gwybod i ddysgwyr sut i gael cymorth a gwybodaeth bersonol.
- darparu addysg rhyw a pherthnasoedd (ARhPh) o ansawdd uchel fel rhan o'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Amcanion

Bydd yr Ysgol yn cynorthwyo dysgwyr i:

- feithrin agweddau a gwerthoedd cadarnhaol sy'n dylanwadu ar eu hymddygiad
- feithrin y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau cyfrifol a deallus ynghylch iechyd a lles rhywiol
- ennyn hunan-barch a pharch tuag at eraill
- werthfawrogi amrywiaeth mewn cyfeiriadedd rhywiol a dathlu gwahaniaeth
- feithrin perthnasoedd llwyddiannus
- werthfawrogi pwysigrwydd perthnasoedd personol sefydlog a chariadus

- ddeall agweddau corfforol ac emosiynol rhyw, rhywioldeb ac iechyd a lles rhywiol
- ddeall y canlyniadau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol
- gydnabod manteision gohirio gweithgarwch rhywiol
- ddeall cyfreithiau'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol
- wybod sut i gael cyngor priodol am iechyd a lles rhywiol.
- gynorthwyo dysgwyr i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth sy'n briodol i'w hoedran, dealltwriaeth a datblygiad.

Amcanion Penodol

- ⤴ cyflwyno'r ffeithiau ynglŷn â datblygiadau corfforol ac emosiynol cyfnod glasod a sicrhau dealltwriaeth ohono.
- ⤴ cyflwyno'r ffeithiau ynglŷn â rhyw, atal cenhedlu, erthyliad, clefydau rhywiol, AIDS ynghydestun moesol perthynas o barch a chariad a chreu ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau a chanlyniadau perthynas rhywiol
- ⤴ Dangos i'r disgyblion bwysigrwydd gwneud penderfyniadau personol, unigol ynglŷn â pherthynas rywiol
- ⤴ rhoi'r cyfle i'r disgyblion fynd trwy'r broses o feddwl a thrafod materion yn ymwneud â rhyw fel eu bod yn medru wynebu sefyllfaoedd bywyd mewn ffordd sensitif a meddylgar.

Rheoli a threfnu.

- Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau fod polisi cyfredol a dilys yn ei le ar gyfer ARhPh
- Y pennaeth a'r Dirprwy Lles fydd yn sicrhau gweithrediad cyson a monitro'r polisi

Cyflwyno'r Rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Defnyddir fframwaith ABaCh ar gyfer Dysgwyr 7-19 oed yng Nghymru Medi 2008 ar gyfer cynllunio cwricwlwm Addysg Rhyw Penweddig. Yn unol â Pholisi ABaCh yr Ysgol cynhelir diwrnodau ABCh dros y flwyddyn ble mae'r ysgol gyfan yn ymgymryd â'r themâu. Trefnir y diwrnodau fel bod un diwrnod pob tymor.

Caiff y disgyblion eu haddysgu fel grŵp cofrestru rhyw cymysg a/neu fesul grŵp bechgyn/merched ar wahân gan ddibynnu ar y testun fydd yn cael ei drafod. Addysgir addysg rhyw ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Iechyd ac aelodau o staff dysgu'r ysgol sy'n gyfforddus gyda chyflwyno'r themâu.

Cynnwys y Rhaglen

Gwahaniaethir yr hyn a addysgir yn ôl grŵp blwyddyn er mwyn sicrhau parhad a dilyniant rhwng blynyddoedd a chyfnodau allweddol.

Trosolwg o'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

	Gwyddoniaeth	Addysg Grefyddol	ABCh
B17	Glasoed Trafod system atgennedlu		Glasoed (gan gynnwys teimladau) “Cartref hapus/ perthynas hapus” (Camdriniaeth ddomestig) Criw Craff Cyfathrebu o fewn perthynas Ymwrthod â phwysau cyfoedion Hunan Ddelwedd a Hunan Gred Hunaniaeth/Rhywioldeb
Blwyddyn 8		Priodas/Ysgariad/Gwahanu	Glendid Personol/Glasoed/Perthnasoedd Delwedd Bechgyn/ Merched yn y Cyfryngau Teulu-mathau gwahanol o deuluoedd Perthynas dda a pherthynas wael Hunaniaeth/Rhywioldeb Dylanwad delweddau rhywiol ar bobl ifanc
Blwyddyn 9		Ffyddlondeb mewn priodas Rheolau byw	Dulliau Atal Cennedlu Heintiau Diogelwch ar Rwydweithiau Cymdeithasol/ ffonau symudol “Sexto” Hunaniaeth Dechrau a gorffen perthynas-Cyngor i bobl yn eu harddegau Dylanwad delweddau rhywiol ar bobl ifanc
Blwyddyn 10	Agweddau geneteg	TGAU a/neu Crefydd a Moeseg Agweddau Cristnogaeth/ Iddewiaeth at ryw cyn priodas Pwrpas priodas Godineb (adultery) Cyfun rywiaeth Atal-cennedlu Materion moesol Ysgaru/ Gwahanu	Dulliau Atal Cennedlu Heintiau Y Gyfraith Diogelwch ar Rwydweithiau Cymdeithasol/ ffonau symudol “Sexting” Beichiogrwydd Ifanc Rhywioldeb Camdriniaeth o fewn perthynas Dylanwad delweddau rhywiol ar bobl ifanc (Cymorth i Fenywod)
Blwyddyn 11	Agweddau geneteg	Gweler bl.10	Gwasanaethau lleol Rhywioldeb Beichiogrwydd Ifanc Cyd-synio rhywiol Dylanwad delweddau rhywiol ar bobl ifanc (Cymorth i Fenywod)
Blwyddyn 12			Cynllun C (Cynllun Condomau/ saff mewn sach) Dylanwad delweddau rhywiol ar bobl ifanc
Blwyddyn 13	Ffrwythloniad “in vitro” Cwmsela-afiechydon geneteg Prosesau Biolegol/atgennedliad		Cynllun C (Cynllun Condomau/ saff mewn sach) Trafodaeth ar Erthylu Dylanwad delweddau rhywiol ar bobl ifanc

Cyflwynir y rhaglen drwy amrywiaeth o ddulliau e.e mae'r nyrsys ysgol yn defnyddio gêm ar ffurf carwsél i gyflwyno addysg rhyw i flwyddyn 10. Caiff y dysgwyr gyfleoedd i weithio gydag eraill neu i weithio yn unigol drwy e.e. Gwblhau holiaduron barn am ryw a'r gyfraith.

Cyfrinachedd

Dilynir polisi ysgol ar gyfrinachedd ac ar Amddiffyn Plant.

I grynhoi ni all athrawon/ gweithwyr proffesiynol gynnig nac addo cyfrinachedd yn enwedig mewn perthynas â datgeliadau personol.

Anogir dysgwyr i drafod gyda'u rhieni/ warcheidwaid a'u cefnogi i wneud hynny.

Sicrheir fod dysgwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth cyfrinachol e.e. Cwnsela/nyrs ysgol.

Ymdrinnir â datgeliadau i athrawon yn yr unol â'r polisi Amddiffyn Plant

Cynnwys y dysgwyr

Ein nod yw gofyn i ddysgwyr am eu barn am y ddarpariaeth ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol fel y gwneir eisoes am ddiwrnodau ABCh. Mae modd defnyddio "Bocs beco" ar gyfer rhai gwersi.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Ar hyn o bryd mae angen i staff yr ysgol fynychu cyrsiau DPP ar gyfer datblygu'r elfen berthynas o Addysg Rhyw fel bod nifer o athrawon yn cyfrannu at y ddarpariaeth. Bydd yr hyfforddiant yn dibynnu ar natur y wers sydd angen ei chyfleu.

Gweithio gyda rhieni

Mae hawl gan riant dynnu ei blentyn allan o addysg rhyw (gweler uchod) Y bwriad yw sicrhau fod rhieni yn hollol ymwybodol o bolisi Addysg Rhyw yr ysgol drwy gyfathrebu'n glir gyda rhieni. Gosodir y polisi ar wefan yr ysgol unwaith y caiff ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Gall rhai plant a phobl ifanc ei chael yn anodd siarad â'u rhieni/gofalwyr ac efallai eu bod yn dibynnu ar yr ysgol am y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'u ArhPh. Mae'n allweddol bwysig fod addysg rhyw yn cael ei gyflwyno i bob disgybl yn yr ysgol beth bynnag ei oedran neu'r cefndir cymdeithasol. Ni ddylai dysgwyr gael eu tynnu o gael ARhPh er mwyn treulio mwy o amser ar agweddau eraill o'r cwricwlwm. Mae modd trefnu i rieni gael gweld cynnwys y rhaglen A RhaPh cyn iddynt benderfynu os oeddent am ganiatáu i'w plentyn gael mynychu'r wers.

Cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol ac Asiantaethau allanol

Gweler uchod. Mae'r gwasanaeth Iechyd yn benodol yn cyfrannu'n helaeth tuag at bolisi Addysg Rhyw yr ysgol.

Monitro a gwerthuso

Y cydlynnydd ABCh sy'n gyfrifol am fonitro'r safonau o fewn ARh a Ph. Bydd y polisi yn cael ei drafod yn flynyddol gan y Cyngor Ysgol. Caiff canlyniadau'r broses monitro eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu lles fel rhan o'r Cynllun Datblygu Ysgol.

Adolygu'r polisi

Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol gan y Llywodraethwyr a sicrheir fod y polisi yn cael ei gynnwys ar agenda y Cyngor Ysgol.